Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 22 Ionawr 2014**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(174)v2

### 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid (45 munud)

Gweld y cwestiynau

### 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth (45 munud)

Gweld y cwestiynau

### 3 Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (0 munud)

Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau.

### 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 16.3 i addasu cylch gwaith a theitlau pwyllgorau (5 munud)

NDM5403 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 16.3, yn cytuno i:

1. newid cylch gwaith y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i gynnwys Addysg Uwch;

2. newid teitl y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg;

3. trosglwyddo twristiaeth o gylch gwaith y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a

Llywodraeth Leol i gylch gwaith y Pwyllgor Menter a Busnes.

Mae cynigion y Pwyllgor Busnes i'w gweld yn yr adroddiad 'Portffolios a Chyfrifoldebau'r Pwyllgorau yn y Pedwerydd Cynulliad' a osodwyd ar 15 Ionawr 2014.

**Dogfennau Ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Busnes

**5 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar yr Ymchwiliad i Entrepreneuriaeth ymysg Pobl Ifanc (60 munud)**

NDM5404 Nick Ramsay (Mynwy)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar yr Ymchwiliad i Entrepreneuriaeth ymysg Pobl Ifanc, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Tachwedd 2013.

Nodyn: Gosodwyd yr ymateb gan Lywodraeth Cymru ar 15 Ionawr 2014.

**Dogfennau Ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes
Ymateb Llywodraeth Cymru

**6 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)**

NDM5407 William Graham (Dwyrain De Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi llifogydd a difrod mis Rhagfyr 2013 a mis Ionawr 2014 sydd wedi effeithio ar bobl a chymunedau ledled Cymru.

2. Yn cydnabod gwaith rhagorol y gwasanaethau a'r sefydliadau brys o ran darparu cefnogaeth a chymorth i'r cymunedau hynny.

3. Yn credu y dylai'r defnydd deuol posibl o brosiectau ynni adnewyddadwy lleol gael ei ystyried o ran darparu amddiffynfeydd môr pellach.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) mynd ati ar unwaith i adolygu Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu a Pherygl o Lifogydd;

b) datblygu ac ail-lansio'r cynllun grant a dreialwyd yn 2010/11 i ddarparu cyllid i'r rhai sy'n wynebu'r perygl mwyaf o lifogydd i wneud eu cartrefi'n fwy diogel rhag llifogydd;

c) cyhoeddi adroddiadau ymchwiliad Cyfoeth Naturiol Cymru i'r llifogydd diweddar, ar ôl eu cwblhau.

Mae Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu a Pherygl o Lifogydd ar gael yn: http://cymru.gov.uk/docs/desh/publications/040701tan15cy.pdf

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys pwynt 3 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn canmol gwirfoddolwyr lleol ar hyd a lled Cymru am eu hymroddiad yn ystod y broses lanhau ac adfer.

**Gwelliant 2 - Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Dileu is-bwyntiau 4a a 4b a rhoi yn eu lle:

parhau â'i dull a ddisgrifir yn y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru a'r buddsoddiad o £240 miliwn i ddelio â llifogydd yn ystod tymor y Llywodraeth hon.

Gellir gweld y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru drwy ddilyn y ddolen yma:

**Gwelliant 3 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys is-bwynt 4a newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ynghylch y camau y mae wedi'u cymryd i ymchwilio i'r posibilrwydd o ddefnyddio cronfeydd yr Undeb Ewropeaidd i gynorthwyo gyda'r costau yn sgîl gwaith atgyweirio.

**Gwelliant 4 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys is-bwynt 4a newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

ymgysylltu'n gadarnhaol â phartneriaid perthnasol i sicrhau agwedd bragmatig tuag at geisiadau gan fusnesau a thai i ôl-ffitio eiddo at ddibenion gwella mesurau atal llifogydd.

**Gwelliant 5 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys is-bwynt 4a newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

amlinellu'r camau sy'n cael eu cymryd i ddefnyddio gwybodaeth leol a thechnegau rheoli tir arloesol i wneud mwy o ddefnydd o adnoddau naturiol i leihau effaith llifogydd, a chymryd camau i sicrhau bod cynrychiolwyr yn gwella eu sgiliau'n briodol er mwyn gwella'r gallu i wrthsefyll llifogydd.

**Gwelliant 6 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys is-bwynt 4a newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

annog adolygiad o'r polisi clirio afonydd yng Nghymru cyn gynted â phosibl, er mwyn lleihau'r perygl o lifogydd.

**Gwelliant 7 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 4:

'sefydlu Fforwm Llifogydd Cenedlaethol i Gymru'.

**Gwelliant 8 - Elin Jones (Ceredigion)**

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 4:

‘cyfrifo'r gost ychwanegol i lywodraeth leol a sefydliadau cyhoeddus eraill yn sgîl y stormydd diweddar, ac ystyried ar unwaith yr angen i wneud cais am gyllid ychwanegol gan Lywodraeth y DU neu'r Undeb Ewropeaidd i helpu i ysgwyddo'r baich ariannol’.

**7 Dadl Plaid Cymru (60 munud)**
**NDM5405 Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod dros flwyddyn wedi mynd heibio ers cyhoeddi ffigurau cyfrifiad 2011 sy’n dangos bod gostyngiad o 2 y cant yn y nifer o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithredu er mwyn galluogi’r Gymraeg i ffynnu drwy, ymysg pethau eraill:

a) sicrhau bod gan bawb yng Nghymru’r cyfle i ddysgu Cymraeg;

b) buddsoddi mewn gofal plant trwy gyfrwng y Gymraeg;

c) cynyddu nifer y disgyblion sy’n derbyn y Cyfnod Sylfaen drwy gyfrwng y Gymraeg;

d) defnyddio’r potensial o dan Fesur y Gymraeg 2011 i osod safonau ar gyfer y Gymraeg sy’n rhoi hawliau cryfach i siaradwyr Cymraeg na chynlluniau iaith o dan Ddeddf Iaith 1993;

e) annog cyrff cyhoeddus i ddefnyddio’r Gymraeg fel iaith weinyddol yn fewnol;

f) creu cyfleoedd economaidd a swyddi yng nghadarnleoedd y Gymraeg drwy hybu datblygiad Bangor a Menai, Aberystwyth a Chaerfyrddin fel dinas-ranbarthau;

g) sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chymryd o ddifrif yn y system gynllunio.

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)

Cynnwys pwynt 2 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn nodi methiannau Llywodraeth Cymru o ran bodloni'r safonau yn llawn wrth hybu'r defnydd o ieithoedd rhanbarthol a lleiafrifol mewn bywyd cyhoeddus, fel y nodir yn Siarter Ieithoedd Rhanbarthol neu Leiafrifol Ewrop.

Mae 'European Charter for Regional or Minority Languages – Fourth report of the Committee of Experts in respect of the United Kingdom' ar gael yn:

European Charter for Regional or Minority Languages

**Gwelliant 2 – William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnwys 'yn effeithiol' ar ddiwedd is-bwynt 2a.

**Gwelliant 3 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Dileu pwynt 2f a rhoi yn ei le:

cefnogi cadarnleoedd y Gymraeg yng ngorllewin Cymru drwy ddatblygu strategaeth economaidd ar gyfer yr ardaloedd hyn, sy'n adlewyrchu eu cymeriad ac sydd wedi'u teilwra'n unol â'u hanghenion

*[Os derbynnir gwelliant 3, bydd gwelliant 4 yn cael ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 4 – Lesley Griffiths (Wrecsam)**

Yn is-bwynt 2f, dileu popeth ar ôl 'Gymraeg'.

**Gwelliant 5 – William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 2:

manteisio ar y cyllid ychwanegol ar gyfer Dechrau'n Deg i wella'r broses o hyrwyddo'r Gymraeg ymysg plant ifanc a'u teuluoedd.

**Gwelliant 6 – William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 2:

gweithio gydag oedolion sy'n dysgu Cymraeg er mwyn creu cyfleoedd i siarad Cymraeg yn eu cymunedau.

**Gwelliant 7 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 2:

rhoi sylw i'r anawsterau a wynebwyd yn lleol o ran derbyn darllediadau yn y Gymraeg ers newid i'r digidol ar gyfer teledu yn 2010.

**Gwelliant 8 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 2:

rhoi sylw i'r gwendidau yn narpariaeth Cymraeg fel ail iaith mewn ysgolion.

**Gwelliant 9 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 2:

sicrhau y caiff Comisiynydd y Gymraeg ei benodi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Gwelliant 10 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 2:

sicrhau bod Cynlluniau Strategol Addysg Gymraeg yn gadarn ac yn cynnwys mesurau y mae modd eu cyflawni i gwrdd â'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg ac i sicrhau dilyniant rhwng yr addysg gynradd ac uwchradd a gynigir.

**Gwelliant 11 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 2:

sicrhau bod unrhyw werthusiad o'r rhaglen Dechrau'n Deg yn rhoi sylw i'r ddarpariaeth Gymraeg.

**Cyfnod Pleidleisio**

**8 Dadl Fer (30 munud)**
NDM5406 Leanne Wood (Canol De Cymru):

Y dechrau gorau mewn bywyd: Dyhead gwirioneddol i bawb?

Yr angen i sicrhau cyfle cyfartal i deuluoedd difreintiedig fanteisio ar ddarpariaeth gofal plant Dechrau'n Deg cyfrwng Cymraeg.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mawrth, 28 Ionawr 2014

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 15 Ionawr 2014 i'w hateb ar 21 Ionawr 2014

R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

## Gofyn i'r Gweinidog Cyllid

1. Keith Davies (Llanelli): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei blaenoriaethau ar gyfer gwariant cyfalaf yn 2014? OAQ(4)0357(FIN)W

2. Ann Jones (Dyffryn Clwyd): Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi ei wneud o effaith toriadau Llywodraeth y DU ar grant bloc Cymru? OAQ(4)0352(FIN)

3. Lynne Neagle (Torfaen): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y rhaglen Buddsoddi i Arbed? OAQ(4)0359(FIN)

4. Lynne Neagle (Torfaen): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y dyraniad cyllid cyffredinol i'r portffolio Cymunedau a Threchu Tlodi? OAQ(4)0358(FIN)

5. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru): Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi eu cynnal ynglŷn â sut y gellir defnyddio cronfeydd strwythurol Ewropeaidd i greu cyfleoedd i bobl ifanc? OAQ(4)0356(FIN)W

6. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd): Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi eu cymryd i sicrhau bod anghenion menywod yn cael eu hystyried wrth gyflawni'r portffolio Cyllid? OAQ(4)0360(FIN)

7. Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am werth am arian ar draws cyllideb Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0351(FIN)

**8. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am oblygiadau Bil Cymru drafft ar ei dyletswyddau? OAQ(4)0355(FIN)W

**9. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau asesiad ariannol trylwyr o Filiau? OAQ(4)0362(FIN)

**10. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gyllideb a ddyrennir i'r portffolio Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth? OAQ(4)0354(FIN)

**11. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** Pa drafodaethau diweddar y mae'r Gweinidog wedi eu cael gyda Gweinidogion y DU am bwerau ariannol ychwanegol sydd wedi'u cynllunio ar gyfer Cymru? OAQ(4)0353(FIN)

**12. Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am unrhyw gynlluniau sydd ganddi i ychwanegu at y gyllideb gyfalaf ar gyfer y portffolio Tai ac Adfywio? OAQ(4)0348(FIN)

**13. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** Pa gynnydd sy'n cael ei wneud tuag at sefydlu Trysorlys i Gymru? OAQ(4)0349(FIN)

**14. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynglŷn â'r dyraniad cyllideb i'r portffolio hwnnw? OAQ(4)0350(FIN)

**15. Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y dyraniad cyllid i'r portffolio Cymunedau a Threchu Tlodi? OAQ(4)0361(FIN)

## Gofyn i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth

1. **Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)**: A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith Comisiwn Williams ar Lywodraethu a Chyflawni Gwasanaethau Cyhoeddus mewn perthynas â llywodraeth leol yng Nghymru? OAQ(4)0358(LG)

2. **Christine Chapman (Cwm Cynon)**: Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i helpu i leihau'r risg o droseddu rhwng cenedlaethau yng Nghymru? OAQ(4)0365(LG)

3. **Nick Ramsay (Mynwy)**: A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r canllawiau y mae ei hadran wedi eu rhoi i Gynghorau yng Nghymru ynghylch sut i ateb yr heriau o leihau eu cyllidebau? OAQ(4)0360(LG)

4. **Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddiwygio'r sector cyhoeddus yng Nghymru? OAQ(4)0364(LG)W

5. **Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am berfformiad cynghorau yng Nghymru? OAQ(4)0369(LG)

6. **Keith Davies (Llanelli)**: A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei blaenoriaethau ar gyfer diogelwch cymunedol? OAQ(4)0366(LG)W

7. **Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ymateb Llywodraeth Cymru i adolygiad Comisiwn Williams o ddyfodol gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru? OAQ(4)0371(LG)

8. **Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol llywodraeth leol yng ngogledd Cymru? OAQ(4)0359(LG)W

9. **Peter Black (Gorllewin De Cymru)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae'n ymateb i adroddiad Comisiwn Williams ar Lywodraethu a Chyflawni Gwasanaethau Cyhoeddus? OAQ(4)0372(LG)

10. **Aled Roberts (Gogledd Cymru)**: Pa broses y bydd Llywodraeth Cymru yn ei dilyn wrth ystyried argymhellion Comisiwn Williams ar

Lywodraethu a Chyflawni Gwasanaethau Cyhoeddus? OAQ(4)0370(LG)W

11. **Julie Morgan (Gogledd Caerdydd)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am reoli perfformiad mewn awdurdodau lleol? OAQ(4)0363(LG)

12. **Alun Ffred Jones (Arfon)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am oblygiadau argymhellion Comisiwn Williams i lywodraeth leol? OAQ(4)0361(LG)W

13. **Keith Davies (Llanelli)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol? OAQ(4)0368(LG)W

14. **Aled Roberts (Gogledd Cymru)**: Pa asesiadau y mae'r Gweinidog wedi eu cynnal o lwyddiant mentrau cyfiawnder ieuenctid Llywodraeth Cymru cyn cyflwyno'r Bil Cyfiawnder Ieuenctid? OAQ(4)0362(LG)W

15. **Lynne Neagle (Torfaen)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y setliad Llywodraeth Leol yn Nhorfaen? OAQ(4)0367(LG)

## Gofyn i Gomisiwn y Cynulliad

Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau.